Four UK nations agree new rules for the festive period

A broad set of UK-wide measures to help people come together with their loved ones during the festive period, in a way that is as safe as possible, have been agreed by the governments of the UK's four nations.

Speaking after a meeting of the four governments, the First Minister of Wales, Mark Drakeford said:

> "This has been a very long and difficult year for everyone. All our lives have been turned upside down by the coronavirus pandemic.
>
> "Everyone has done so much to help control the spread of the virus and to save lives. But that has meant many sacrifices, including not seeing family and close friends. We are all looking forward to Christmas and a chance to spend some time with all those we hold dear.
>
> "Today, I met the First Ministers of Scotland and Northern Ireland and Michael Gove, from the UK Government, and I'm pleased we were able to agree a common four-nation plan for the festive period."

The text of a joint statement issued by the four UK governments:

As 2020 draws to a close, we recognise it has been an incredibly difficult year for us all. We have all had to make significant sacrifices in our everyday lives, and many religious and community groups have already had to change or forgo their customary celebrations to slow the spread of coronavirus and save lives.

This cannot be a 'normal' Christmas. But as we approach the festive period, we have been working closely together to find a way for family and friends to see each other, even if it is for a short time, and recognising that it must be both limited and cautious.

Even where it is within the rules, meeting with friends and family over Christmas will be a personal judgement for individuals to take, mindful of the risks to themselves and others, particularly those who are vulnerable. We need everyone to think carefully about what they do during this period, balancing some increased social contact with the need to keep the risk of increased transmission of the virus as low as possible. This is particularly important when considering those who are vulnerable, and before deciding to come together over the festive period we urge the consideration of alternative approaches such as the use of technology or meeting outside.

In this context, the four administrations have reached agreement on a single set of UK-wide measures to help people come together with their loved ones in a way that is as safe as possible.

Today we have agreed that:

- Travel restrictions across the four administrations and between tiers will be lifted to provide a window for households to come together between the 23rd and 27th of December.
- Up to three households can form an exclusive 'bubble' to meet at home during this period. When a bubble is formed it is fixed, and must not be changed or extended further at any point.
- Each Christmas bubble can meet at home, at a place of worship or an outdoor public place, but existing, more restrictive rules on hospitality and meeting in other venues will be maintained throughout this period.

It is important that everyone respects and abides by the rules of each nation wherever they choose to spend the festive period. Where there are any variations in our approach, these will be communicated by each administration accordingly. Further guidance will be provided in due course.

The winter holiday period is a time often spent with family and friends, with schools and offices closing and people travelling over the bank holidays. Many have already begun making their plans, and we are today providing clarity to help people make the right choices for them, and enjoy time with those closest to them while staying within the rules to protect us all.

ENDS

Pedair gwlad y DU yn cytuno ar reolau newydd ar gyfer cyfnod yr ŵyl

Mae llywodraethau pedair gwlad y DU wedi cytuno ar gyfres eang o fesurau ar gyfer y DU gyfan i helpu pobl i ddod at ei gilydd gyda'u hanwyliaid yn ystod cyfnod yr ŵyl, mewn ffordd sydd mor ddiogel â phosibl.

Wrth siarad ar ôl cyfarfod ar gyfer y pedair llywodraeth, dywedodd Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford:

> "Mae hon wedi bod yn flwyddyn hir ac anodd iawn i bawb. Mae ein bywydau ni i gyd wedi cael eu troi wyneb i waered gan bandemig y coronafeirws.
>
> "Mae pawb wedi gwneud cymaint i helpu i reoli lledaeniad y feirws ac i achub bywydau. Ond mae hynny wedi golygu llawer o aberth, gan gynnwys peidio â gweld teulu a ffrindiau agos. Rydyn ni i gyd yn edrych ymlaen at y Nadolig a chael cyfle i dreulio amser gyda phawb sy'n annwyl i ni.
>
> "Heddiw, bues i mewn cyfarfod â Phrif Weinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon, a Michael Gove, o Lywodraeth y DU, ac rwy'n falch ein bod ni wedi gallu cytuno ar gynllun cyffredin i'r pedair gwlad ar gyfer cyfnod yr ŵyl."

Testun datganiad ar y cyd a gyhoeddwyd gan bedair llywodraeth y DU:

Wrth i 2020 ddirwyn i ben, rydym yn cydnabod ei bod wedi bod yn flwyddyn eithriadol o anodd i ni i gyd. Bu'n rhaid i bob un ohonom wneud aberth sylweddol yn ein bywydau bob dydd, ac mae llawer o grwpiau crefyddol a chymunedol eisoes

wedi gorfod newid neu anghofio eu dathliadau arferol i arafu lledaeniad y coronafeirws ac achub bywydau.

Ni all hwn fod yn Nadolig 'normal'. Ond wrth i ni nesáu at gyfnod yr ŵyl, rydym wedi bod yn cydweithio'n agos i ddod o hyd i ffordd i deuluoedd a ffrindiau weld ei gilydd, hyd yn oed os hynny yw am gyfnod byr – gan gydnabod bod yn rhaid bod yn ofalus a chadw at gyfyngiadau. Hyd yn oed os yw'r rheolau'n cael eu dilyn, bydd cyfarfod â ffrindiau a'r teulu dros y Nadolig yn gyfrifoldeb personol i unigolion ei gymryd, gan gofio'r risgiau iddynt hwy eu hunain ac eraill, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed. Rydym angen i bawb feddwl yn ofalus am yr hyn y maent yn ei wneud yn ystod y cyfnod hwn, gan gydbwyso rhywfaint mwy o gyswllt cymdeithasol â'r angen i gadw'r risg o drosglwyddo'r feirws mor isel â phosibl. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried y rhai sy'n agored i niwed. Cyn penderfynu dod ynghyd dros gyfnod yr ŵyl rydym yn eich annog i ystyried ffyrdd eraill o ddathlu gyda'ch gilydd, fel defnyddio technoleg neu gyfarfod yn yr awyr agored.

Yn y cyswllt hwn, mae'r pedair gweinyddiaeth wedi dod i gytundeb ar un set o fesurau ar gyfer y DU gyfan i helpu pobl i ddod at ei gilydd gyda'u hanwyliaid mewn ffordd sydd mor ddiogel â phosibl.

Heddiw rydym wedi cytuno ar y canlynol:

- Bydd cyfyngiadau teithio ar draws y pedair gweinyddiaeth a rhwng yr haenau yn cael eu codi i ddarparu ffenestr benodol i aelwydydd ddod at ei gilydd rhwng 23 a 27 Rhagfyr.

- Gall hyd at dair aelwyd ffurfio 'swigen' Nadolig' unigryw i gyfarfod gartref yn ystod y cyfnod hwn. Ar ôl ffurfio swigen, mae'n sefydlog, ac ni ddylid ei newid nac ychwanegu aelwyd arall ati ar unrhyw adeg.

- Gall pob swigen Nadolig gyfarfod gartref, mewn man addoli neu mewn man cyhoeddus yn yr awyr agored, ond bydd y rheolau mwy cyfyngol presennol ar gyfer lletygarwch a chyfarfod mewn lleoliadau eraill yn parhau drwy gydol y cyfnod hwn.

Mae'n bwysig bod pawb yn parchu ac yn cadw at reolau pob gwlad, ble bynnag y maent yn dewis treulio cyfnod yr ŵyl. Os bydd unrhyw amrywiadau yn y ffordd yr ydym am weithredu, caiff y rhain eu cyfleu gan bob gweinyddiaeth yn unol â hynny. A bydd canllawiau pellach yn cael eu darparu maes o law.

Amser i'r teulu a ffrindiau ddod ynghyd yw cyfnod gwyliau'r gaeaf yn aml. Mae ysgolion a swyddfeydd yn cau a phobl yn teithio dros wyliau'r banc. Mae llawer eisoes wedi dechrau gwneud eu trefniadau. Felly rydym am sicrhau eglurder heddiw i helpu pobl i wneud y dewisiadau iawn er mwyn iddynt allu mwynhau amser gyda'r rhai sydd agosaf atynt, a chadw at y rheolau i ddiogelu pawb.

DIWEDD